# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005
# Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Gynradd Hirael**
**Ffordd y Gogarth**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 1BA**

**Rhif yr Ysgol: 6612227**
**Dyddiad yr Arolygiad: 01/06/09**
**gan**
**Edward Goronwy Morris**
**78283**


**Dyddiad Cyhoeddi: 03/08/09**
**O dan rif contract Estyn: 1119108**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

67. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Meithrinir agweddau cymdeithasol cyfrifol ym mywyd a gwaith yr ysgol a phwysleisir yr angen i'r disgyblion barchu eu hunain ag eraill, gan gydweithio mewn ffordd ofalgar a sensitif. Fodd bynnag, mewn cyfnodau o addoli ar y cyd, er yn cwrdd â'r gofyn statudol, ni roddir cyfle i'r disgyblion fyfyrio. Prin yw'r naws ysbrydol yn y sesiynau hyn.

73. Hyrwyddir ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fydeang yn dda. Cyfranna'r disgyblion yn rheolaidd at amrywiol elusennau.